# Uwch Arholwyr,
# Cymhwyster TGAU (Cymwys ar gyfer y Dyfodol) Newydd
# Sbaeneg
## Proffil y Rôl a Ffurflen Gais

**Swyddi:**
**Uwch Arholwr TGAU Sbaeneg Uned 1 (Asesiad Di-arholiad) Llafaredd**
**Uwch Arholwr TGAU Sbaeneg Uned 2 (Asesiad Di-arholiad) Darllen ac Ysgrifennu**
**Uwch Arholwr TGAU Sbaeneg Uned 3 - Gwrando**
**Uwch Arholwr TGAU Sbaeneg Uned 4 - Darllen ac Ysgrifennu**

## PROFFIL Y RÔL

**Pwrpas:**

Mae CBAC yn recriwtio Uwch Arholwyr ar gyfer y cymhwyster **TGAU Sbaeneg** newydd yng Nghymru.

Cyfrifoldeb Uwch Arholwr yw gosod y papurau cwestiynau a'r cynlluniau marcio a sicrhau safoni'r marcio. Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn gyfrifol am asesu un o'r unedau.

**Cyfrifoldebau:**

- gosod y cwestiynau a'r cynlluniau marcio ar gyfer y papur cwestiynau neu gymeradwyo'r rhai hynny gan arholwyr eraill
- mynychu cyfarfodydd PGPC (Pwyllgor Gwerthuso Papurau Cwestiynau)
- paratoi a darparu hyfforddiant cynadleddau ar gyfer arholwyr
- gosod a monitro safonau marcio holl arholwyr y papur, gan gynnwys, lle bo angen, unrhyw arholwyr cynorthwyol ac arweinwyr tîm, a gweithredu'n briodol i sicrhau cywirdeb a chysondeb
- cynghori ar benodi, hyfforddi ac ailbenodi arweinwyr tîm ac arholwyr ar gyfer y papurau cwestiynau, lle bo angen gwneud hynny
- mynychu'r cyfarfod dyfarnu, cynghori aelodau ynghylch gweithrediad y papur

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

cwestiynau ac argymell ystodau rhagarweiniol y marciau ar gyfer ffiniau graddau yn ôl barn i'r papur cwestiynau

- cyflwyno adroddiad gwerthuso ar berfformiad y papur cwestiynau/tasgau

Mae angen i Uwch Arholwyr fod ar gael i fynychu cyfarfodydd am gyfnod o hyd at ddeg diwrnod y flwyddyn o leiaf. Gall y cyfnod hwn gynnwys dyddiau yn ystod y tymor, ar benwythnosau ac yn ystod y gwyliau. Mae tâl rhyddhau ar gael i ganolfannau. Bydd hyn yn galluogi i ddeiliad y swydd fynychu cyfarfodydd ymlaen llaw (deuddydd), PGPC (deuddydd), dethol sgriptiau (un diwrnod), safoni arweinwyr tîm ar gyfer y papur arholiad ym mis Ebrill (un diwrnod), a mynychu'r gynhadledd arholwyr (un diwrnod) a'r gynhadledd ddyfarnu ym mis Gorffennaf (dau ddiwrnod).

**Profiad/cymwysterau angenrheidiol**

- gradd yn y pwnc sy'n benodol i'r cymhwyster hwn
- profiad asesu ac addysgu perthnasol
- profiad rheoli pobl
- llythrennedd cyfrifiadurol, gan allu gwneud defnydd hyderus o amrywiaeth o feddalwedd
- y gallu i weithio'n dda o dan bwysau a bodloni terfynau amser

I gael gwybod mwy, cysylltwch â Joanne Vincent drwy anfon e-bost at joanne.vincent@cbac.co.uk
Y dyddiad cau i gyflwyno ceisiadau yw **dydd Llun, 25 Tachwedd 2024.**

**Sut i wneud cais**:
Os ydych chi'n dymuno gwneud cais am y swydd, ac **nad ydych yn gweithio i CBAC ar hyn o bryd**, ewch i https://appointees.wjec.co.uk/ a chlicio ar 'Gwneud Cais i fod yn Arholwr' i lenwi'r ffurflen gais.

**Os ydych yn gweithio i CBAC ar hyn o bryd:**
Bydd angen i chi ddiweddaru eich Datganiad Cefnogi ar y cais, mewngofnodwch i'ch cyfrif Porth Rheoli Penodedigion (gan ddefnyddio eich enw defnyddiwr newydd) a chliciwch ar yr eicon 'Fy Nghais' ar yr hafan. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ychwanegu rôl **Uwch Arholwr** ar gyfer **TGAU (CBAC) Sbaeneg Uned 1 a/neu Uned 2 a/neu Uned 3 a/neu Uned 4** ar y tab 'maes pwnc', a llenwch feysydd eraill y cais.

Os oes angen unrhyw gymorth pellach arnoch wrth lenwi'r ffurflen gais, cysylltwch â:-

| | | |
|---|---|---|
| Rob Reynolds | neu | Rabina Chowdhury |
| rob.reynolds@cbac.co.uk | | rabina.chowdhury@cbac.co.uk |
| 02920 265 050 | | 02920 265 019 |